# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd);<br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, C. McGregor, K. P. Hughes, R. L. Owen, Eric Roberts, J. Penri Williams.<br><br>Safle 1 yn unig – John Chorlton, W. T. Hughes, Hefin Thomas, Aelod Lleol y Cynghorydd Aled Morris Jones (Safle 1 yn unig). |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (DPJ)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA)<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans. |

---

**1. 44C290A – BODNEITHIOR, LLANDYFRYDOG**

*Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Lewis Davies ac nid oedd yn bresennol ar yr Ymweliad Safle.*

Codi dau dyrbin gwynt gydag uchafswm uchder hwb o hyd at 29.6m, diametr rotor o hyd at 20m ac uchafswm uchder i ben y llafn o 39.6m ar dir yn Bodneithior, Llandyfrydog.

Nododd y Rheolwr Rheoli Datblygu union leoliad y ddau dyrbin gwynt arfaethedig a chadarnhaodd y byddai'r uchder i'r hwb yn 29.6m gyda llafnau o 20m fyddai'n gwneud yr uchder i gyd yn 39.6m.

Cadarnhaodd y Swyddog bod yna reoliadau ond nad oes yna unrhyw bolisïau cyfredol ynglŷn â lleoli tyrbinau gwynt yn agos i beilonau trydan. Fe gafwyd ymgynghori ynglŷn â'r mater hwn ac nid oes unrhyw wrthwynebiadau wedi eu derbyn.

Diolchodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Aled Morris Jones, i'r Aelodau a'r Swyddogion am ddod ar yr Ymweliad Safle a chadarnhaodd y byddai'n siarad ar y cais pan gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w benderfynu.

*Er mwyn hwyluso a helpu'r Aelodau yn eu trafodaethau ynglŷn â thyrbinau gwynt, dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y byddai ymweliad safle yn cael ei gynnal i dri safle arall er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau weld y ffermydd gwynt cyfredol gyda thyrbinau o'r run mesuriadau neu fwy na'r cynnig cyfredol yn Bodneithior. Ymwelwyd felly â'r safleoedd a ganlyn:-*

*Fferm Wynt Trysglwyn – 19 tyrbin – 30m i'r hwb gydag uchder cyfan o 46.5;*
*Rhydygroes, Cemaes – 29 tyrbin – 30m i'r hwb a 45.5 i gyd;*
*Fferm Wynt Alaw – 34 tyrbin – uchder cyfan o 54m.*

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**

**CADEIRYDD**